Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.




# Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa:

# Plant yn y Ddalfa

**6 Mawrth 2024**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**
**Ysgrifennwyd gan: Tom Walters**

# Cynnwys


**Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg** ........ 2

**Arsylwadau'r Panel** ........ 6

**Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion Dalfeydd** ........ 10

# Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg

Yn 2022, nododd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mai prin oedd y craffu annibynnol ar anghymesuredd a dalfeydd mewn heddluoedd ledled Cymru a Lloegr. Yn dilyn nifer o ddigwyddiadau proffil uchel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad yn hyder y cyhoedd yn y modd y mae'r heddlu'n trin y cyhoedd.

Mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi awgrymu y byddai panel craffu annibynnol ar gadw yn y ddalfa yn gwella tryloywder, yn cynyddu hyder y cyhoedd ac yn nodi arferion da a gwael.

Diben cyffredinol y Panel Craffu Annibynnol ar Gadw yn y Ddalfa yw sicrhau bod gweithdrefnau dalfeydd a chadw yr heddlu yn Nyfed-Powys yn gymesur, yn gyfreithlon ac yn angenrheidiol.

Mae aelodaeth y panel craffu yn cynnwys gwirfoddolwyr presennol (ond nid yn gyfyngedig i) o blith:

1) Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa
2) Panel Sicrhau Ansawdd

Yn ogystal ag aelodau’r panel, roedd rhingyll dalfa, gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, cynrychiolaeth o Dîm Sicrwydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) a Phrif Arolygydd Dalfeydd Dyfed-Powys yn cynorthwyo’r broses graffu ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys. Roedd hyn er mwyn cynorthwyo i roi cyngor proffesiynol i’r panel pe bai ganddynt unrhyw ymholiadau mewn perthynas â’r canlynol:

- Y prosesau a'r gweithdrefnau yn y ddalfa a/neu ofal iechyd;
- Unrhyw gwestiynau ar y ffurflenni electronig (e-ffurflenni) a ddefnyddiwyd i gofnodi a darparu adborth at ddibenion y craffu hwn.

Er mwyn helpu’r gwirfoddolwyr hefyd i ddeall, cyn y cyfarfod, cafodd y gwirfoddolwyr hyfforddiant gan ringyll dalfa a oedd yn ymdrin â’r prosesau a’r gweithdrefnau ar gyfer cadw unigolyn yn y ddalfa.

Dewiswyd yr achosion ar hap gan SCHTh a'u cyflenwi gan yr heddlu, gan ganolbwyntio ar achosion ieuenctid yn y ddalfa.

Mae canolbwyntio ar achosion ieuenctid yn deillio o adrannau 10 ac 11 o Ddeddf Plant 2004, sy’n gosod dyletswydd ar yr heddlu i sicrhau bod eu swyddogaethau, ac unrhyw wasanaethau y maent yn eu contractio i eraill, yn cael eu cyflawni gan ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant.

O dan adran 1(8)(h) o Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae’n rhaid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer ei ddyletswyddau mewn perthynas â diogelu plant o dan adrannau 10 a 11 o Ddeddf Plant 2004.

O dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE), caniateir cadw plentyn (nad yw wedi’i arestio ar warant neu am dorri amodau mechnïaeth) ar ôl cyhuddo dim ond pan fo amgylchiadau eithriadol yn atal symud (fel tywydd eithafol) neu lle bernir bod y plentyn yn peri risg o niwed difrifol i’r cyhoedd rhwng cael ei gyhuddo ac ymddangos yn y llys ac nad oes llety diogel awdurdod lleol ar gael. Yn ôl y Coleg Plismona:

> ***“Rhaid i swyddogion ystyried oedran plentyn neu berson ifanc wrth benderfynu a yw sail statudol dros arestio Cod G Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (yn agor gwefan allanol yn yr un tab) yn berthnasol. Dylent roi sylw arbennig i amseriad unrhyw arestiadau angenrheidiol o blant a phobl ifanc a sicrhau nad ydynt yn cael eu cadw am gyfnod hwy nag sydd angen yn unol â Chod C Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth***

***Droseddol 1984, paragraff 1.1* (yn agor gwefan allanol yn yr un tab). Dylai swyddogion osgoi cadw plant dros nos yng nghelloedd yr heddlu oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol."**

Yn adolygiad cynllun peilot arsylwi dalfeydd annibynnol o gofnodion dalfeydd, nododd achosion o blant yn cael eu cadw'n amhriodol, bod angen gwella'r broses o gofnodi'r rhesymeg dros gadw plant dros nos a bod hefyd angen ymgysylltu ag asiantaethau perthnasol ynghylch diffygion yn y ddarpariaeth o lety amgen.

Y meysydd penodol y canolbwyntiodd y panel arnynt oedd urddas a pharch, anghymesuredd, amseroldeb, oedolion priodol , a awdurdodwyd dillad gwrth-rwygo neu noeth-chwiliadau; ac os felly, a ddarparwyd rhesymeg dros unrhyw un o'r rhain.

I grynhoi'r canfyddiadau, roedd yr adborth cyffredinol gan y panel yn gadarnhaol ac roedd aelodau'r panel yn awyddus i dynnu sylw at y gwaith da a welwyd yn y cofnodion dalfeydd a adolygwyd.  Fodd bynnag, codwyd nifer o bryderon gan y panel ac roedd y pryderon hyn yn ymwneud ag ansawdd ac amlder yr asesiadau risg/cynlluniau gofal a oedd yn cael eu cwblhau.
Asesodd y panel mai sgôr gyfartalog gyffredinol yr 14 cofnod dalfa a adolygwyd oedd 3.56 allan o bump.

Mewn perthynas â'r pethau cadarnhaol, nododd y panel y canlynol:

- Yr amser ar gyfartaledd rhwng cyrraedd y ddalfa a chadw awdurdodedig oedd 29 munud (tudalen 7)
- Roedd swyddog benywaidd wedi'i neilltuo ar gyfer pob unigolyn ifanc benywaidd a oedd yn cael ei chadw yn y ddalfa (tudalen 10).
- Canfuwyd bod graddfeydd asesu risg ar y lefelau priodol (tudalen 18).
- *Nododd y Panel fod yr heddlu ym mhob achos wedi nodi bod angen oedolyn priodol (tudalen 20).*
- Cysylltwyd ag oedolion priodol yn brydlon a chofnodwyd unrhyw oedi o ran presenoldeb.

- Defnyddiwyd rhestr wirio Plant yn y Ddalfa ar gyfer pob unigolyn ifanc a oedd yn cael ei gadw yn y ddalfa (tudalen 22).
- Rhoddwyd eu hawliau i'r holl unigolion ifanc naill ai yn ystod y cam cofnodi neu rywbryd yn ystod eu hamser yn y ddalfa.(tudalen 15).

Lle nododd y panel feysydd o bryder neu lle y gellid gwella, rhannwyd eu harsylwadau â Phrif Arolygydd y Ddalfa ac mae ei ymateb wedi'i gynnwys yn adran 2 *Arsylwadau'r Pane*l.

# Arsylwadau'r Panel

| Thema | Arsylwadau | Ymateb yr Heddlu |
|---|---|---|
| **Amser a gedwir yn y ddalfa** | Gwnaethpwyd y sylwadau canlynol ynghylch cyfnod cadw person ifanc yn y ddalfa:<br>- Ni ddarparwyd unrhyw resymeg dros unrhyw oedi wrth awdurdodi cadw rhai o'r unigolion ifanc yn y ddalfa.*(tudalen 11)*<br>*-Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr ar ddyletswydd oedd 1 awr a 48 munud, a'r amser cyfartalog i gyfreithiwr gyrraedd oedd 8 awr ac 14 munud. Bu dau achlysur hefyd pan gyrhaeddodd cyfreithiwr 15 awr ar ôl i'r person ifanc gael ei gadw.(tudalen 14)*<br>*-O'r 14 achos a adolygwyd, yr amser cyfartalog y cafodd person ifanc ei gadw yn y ddalfa oedd 12 awr a 21 munud. Cafodd 57% o bobl ifanc eu cadw dros nos, ni chafodd 50% eu cyhuddo ac ni cheisiwyd gofal amgen ar gyfer 43% o'r achosion. (tudalen 11).* | 1. Mae oedi cyn awdurdodi carchariad yn cael ei fonitro'n agos trwy gyfarfod misol perfformiad y ddalfa lle mae sicrwydd ansawdd 100% bellach ar gyfer plant yn y ddalfa. Dylid blaenoriaethu plant pan fyddant yn mynd i ddesg y ddalfa a phan fydd yr achosion yn cael eu clirio. Hoffwn weld yr amser cyfartalog yn cael ei leihau o'r canfyddiadau a byddaf yn monitro hyn yn ofalus.<br>2. Dylid cysylltu â chyfreithiwr ar y cyfle cyntaf, mae 1 awr a 48 munud yn ymddangos yn amser hir, ond efallai mai un cais hwyr iawn sy'n effeithio ar hyn. Byddai hyn hefyd yn cael ei effeithio os daw'r plentyn i mewn gyda'r nos a gwneir cais am gyfreithiwr beth amser ar ôl cofnodi'r plentyn. Mae hyn yn cael ei fonitro yn y sicrwydd ansawdd newydd ar gyfer plant yn y ddalfa.<br>3. Mae'r heddlu yn monitro faint o amser y mae person ifanc yn cael ei gadw yn y ddalfa ar gyfartaledd. O'r prosesau sicrwydd ansawdd, rwy'n fodlon ein bod yn rhyddhau |

| | | |
|---|---|---|
| | | plant yn y ddalfa cyn gynted â phosibl ac mae llawer ohonynt yn cael eu cadw llai na chwe awr. Fodd bynnag, bydd adegau a throseddau lle bydd angen i'r plentyn aros yn y ddalfa am gyfnod hwy o amser. Mae lles y plentyn hwnnw o'r pwys mwyaf. |
| **Anghysondeb cofnodi data o fewn cofnodion y ddalfa** | Roedd y panel naill ai'n methu â dod o hyd i'r sail resymegol neu wedi nodi nad oedd unrhyw sail resymegol wedi'i darparu ar gyfer:<br>*- unrhyw oedi cyn awdurdodi unrhyw unigolyn ifanc sy'n cael ei gadw yn y ddalfa. (tudalen11)*<br>*- roedd 77% o'r panel yn methu â chadarnhau ar y cofnod a oedd unigolyn ifanc sy'n cael ei gadw yn y ddalfa wedi'i cael cyfarwyddyd ynghylch y gloch alw yn y gell. (tudalen 12)*<br>*- Ni allai 77% o'r panel ddod o hyd i unrhyw wybodaeth a oedd yn nodi bod yr unigolyn ifanc a oedd yn cael ei gadw yn y ddalfa wedi cael gwybod am picseliad toiled. (tudalen 12)*<br>*- Ni allai unrhyw aelod o'r panel ganfod a oedd eitemau crefyddol yn cael eu cynnig. (tudalen 11)*<br>*- Nid oedd unrhyw gyfeiriad a oedd lluniaeth yn cael ei gynnig. (tudalen 12)*<br>*- Yn yr amgylchiadau lle bu oedi cyn i gyfreithiwr ymweld, roedd 33% wedi rhoi sail resymegol; ac nid oedd 67%* | 1. Fel uchod, bydd oedi cyn awdurdodi yn cael ei fonitro a dylid blaenoriaethu unrhyw blentyn. Os yw rhingyll y ddalfa yn y broses o gofnodi rhywun, yna dylid cofnodi hyn ar gofnod dalfa'r plentyn. Bydd hyn yn cael ei fonitro yn y dyfodol.<br>2. Eglurir y gloch alw i bob un sy'n cael ei gadw yn y ddalfa gan ringyll y ddalfa a swyddog hebrwng y ddalfa fodd bynnag, nid yw'r broblem yn cofnodi hyn yn y log. Mae hyn yn ffactor sy'n cael ei godi'n barhaus, cysondeb yn y cofnodi yn y log cadw. Fodd bynnag, rwy'n hyderus bod hyn yn digwydd.<br>3. Eitemau crefyddol – byddaf yn trafod ag arolygwyr y ddalfa i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys gyda'r holl unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa a'u cofnodi.<br>4. Dylai hyn gael ei gynnwys yng nghofnodion swyddog hebrwng y ddalfa. Byddaf yn sicrhau bod hyn |

| | | |
|---|---|---|
| | *wedi rhoi sail resymegol y gallai'r panel ei weld ar y cofnod cadw. (tudalennau 14 ac 15)*<br>Erbyn hyn mae'r heddlu bron wedi cyrraedd blwyddyn yn defnyddio'r meddalwedd cyfrifiadurol newydd *Niche*, a yw'r heddlu yn sicrhau bod staff y ddalfa yn defnyddio dull mwy safonol o fewnbynnu gwybodaeth i gofnodion y ddalfa? | yn cael ei fwydo'n ôl drwy arolygwyr y ddalfa.<br>5. Edrychaf ar y rhesymeg ynghylch unrhyw oedi cyn bod cyfreithiwr yn bresennol; fodd bynnag, ar sawl achlysur pan ofynnwyd am gyfreithiwr yn gynnar efallai na fydd y tîm ymchwilio yn barod am gyfweliad a bydd slot amser wedi'i neilltuo. Ni fyddai hyn yn gyfystyr ag oedi.<br>6. Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith nawr i fonitro'r broses o fewnbynnu gwybodaeth. Mae'n amlwg bod gostyngiad wedi bod yn yr wybodaeth a fewnbynnwyd i'r system newydd ac mae angen gwelliannau. Mae hyn yn cael ei ailadrodd i holl staff y ddalfa a'i fonitro'n agos trwy brosesau sicrwydd ansawdd wythnosol a misol. Rydym yn gweld gwelliannau yn ystod y pum mis diwethaf, ond mae angen inni weld mwy o gysondeb. |
| **Unigolion ifanc benywaidd sy'n cael eu cadw yn y ddalfa** | Roedd tri unigolyn benywaidd ifanc ymhlith yr 14 achos a adolygwyd o bobl ifanc a oedd yn cael eu cadw yn y ddalfa. Neilltuwyd swyddog benywaidd i'r tair.<br><br>Fodd bynnag, dim ond dwy unigolyn benywaidd a gafodd eu cadw yn y ddalfa a gafodd gynnig cynhyrchion mislif yn ôl y cofnodion; tra nad oedd | Mae'n gadarnhaol bod yr holl garcharorion benywaidd wedi cael swyddog benywaidd.<br><br>Bydd cynnyrch mislif yn cael ei gynnig i bob merch ac rydym yn gweld cynnydd yn hyn yn y cofnodion. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar gysondeb eto, byddaf yn sicrhau bod |

| | | |
|---|---|---|
| | cofnod wedi ei nodi ar gyfer y llall.(*tudalen 9*)<br>A yw'r heddlu yn monitro cynhyrchion hylendid ar gyfer unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa; yn benodol ar gyfer unigolion benywaidd? | hyn yn cael ei gyfleu i ringylliaid y ddalfa/swyddogion hebrwng y ddalfa. |
| **Rhestr Wirio Plant yn y Ddalfa** | Mae'r panel yn ceisio eglurhad ynghylch a yw'r rhestr wirio plant yn y ddalfa yn cynnwys 23 cwestiwn safonol neu a yw hyn yn dibynnu ar y drosedd y cyhuddwyd yr unigolyn a gafodd ei gadw yn y ddalfa o'i gyflawni? (*tudalen 23*) | Y rhestr wirio 23 pwynt yw'r rhestr wirio safonol ar draws yr heddlu y dylid ei defnyddio.<br><br>Roedd hon yn rhestr wirio 18 pwynt yn flaenorol.<br><br>Mae'r defnydd o'r rhestr wirio 23 pwynt yn cael ei fonitro'n fisol ac fe'i hanfonwyd eto at yr holl staff a'i thrafod yng nghyfarfod perfformiad y ddalfa yn dilyn sylwadau bod Powys wedi bod yn defnyddio'r rhestr wirio 18 pwynt. Nodwyd mai rhingylliaid y ddalfa a oedd yn cyflenwi a oedd yn gyfrifol am hyn o'r ymateb ond serch hynny y dylent oll fod yn ymwybodol. |
| **Gwasanaethau cynorthwyol** | Er i'r panel nodi bod 85% o unigolion ifanc a gadwyd yn y ddalfa yn cael cynnig gwasanaethau cymorth, nodwyd materion yn ymwneud â mynediad i wasanaethau awdurdodau lleol/cymdeithasol.(*tudalen 22*) | Nodwyd hyn a bydd yr wybodaeth yn cael ei hadrodd yn ôl i'r arweinydd diogelu, y Prif Arolygydd Briggs. |

# Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion Dalfeydd

Mae'r data isod yn amlinellu canlyniadau'r ffurflenni adborth a gwblhawyd gan aelodau'r panel ac a ddadansoddwyd i nodi'r pethau cadarnhaol a'r meysydd sydd angen eu gwella ym mhob maes penodol o gofnodion dalfeydd.

**Dalfeydd**



**Rhywedd**




- Roedd 79% o'r achosion a adolygwyd yn cynnwys dynion ifanc o gymharu â 21% o ferched.
- Ni chofnodwyd unrhyw rywedd arall.

**Oedran;**

- Roedd y gyfran uchaf o bobl ifanc a gofnodwyd yn y ddalfa yn 15 oed sef 68%.
- Roedd y gyfran leiaf o bobl ifanc yn y ddalfa sef 5% yn 16 oed, a'r bobl ifanc eraill yn 13, 14 ac 17 oed yn 9% yr un o’r gyfran.

**Ethnigrwydd**

- Cofnodwyd bod pob unigolyn ifanc a gafodd ei gadw yn y ddalfa yn wyn Prydeinig neu’n wyn Gogledd Ewrop.
- Ni chofnodwyd unrhyw leiafrifoedd Du neu leiafrifoedd ethnig eraill o'r hapsampl hwn.

### Amseroedd cyrraedd y ddalfa




### Amseroedd a awdurdodwyd i'r ddalfa



**Aeth amser heibio rhwng cyrraedd ac awdurdodi eu cadw**

- Yr amser cyfartalog a aeth heibio o'r adeg y cyrhaeddodd yr unigolyn ifanc y ddalfa a'i awdurdodi i'w gadw oedd 29 munud.
- Yr amser aros uchaf oedd 2 awr ac 19 munud.
- Yr amser cyflymaf i berson ifanc gael awdurdodi i'w gadw oedd 9 munud.
- Nid oedd y panel yn gallu lleoli neu nodi na roddwyd unrhyw sail resymegol ar gyfer unrhyw oedi wrth awdurdodi unrhyw un o'r unigolion ifanc yn y ddalfa.

**Cyfanswm yr amser yn y ddalfa**

- Yr amser cyfartalog y cafodd unigolyn ifanc ei gadw yn y ddalfa oedd 12 awr ac 8 munud.
- Yr amser hiraf i unigolyn ifanc gael ei gadw yn y ddalfa oedd 20 awr a 22 munud.
- Mewn cyferbyniad, yr amser byrraf y cafodd unigolyn ifanc ei gadw yn y ddalfa oedd 2 awr a 10 munud.

**Gofynion crefyddol**

- Ni allai unrhyw aelod o'r panel ganfod a oedd eitemau crefyddol yn cael eu cynnig neu y gofynnwyd amdanynt yn unrhyw un o'r cofnodion cadw a adolygwyd.

**Gofynion dietegol arbennig**

- Gofynnwyd i 84% o garcharorion ifanc a oedd ganddynt unrhyw ofynion dietegol arbennig o gymharu ag 8% yr ymddengys na ofynnwyd iddynt neu gofynnwyd iddynt ond ni chafwyd unrhyw fanylion yn y cofnod.




**Cloch alw'r gell**

- Ni allai 77% o'r panel ganfod ar y cofnod bod unigolion ifanc a oedd wedi eu cadw yn y ddalfa wedi cael cyfarwyddyd ynghylch y gloch alw yn eu cell cadw.
- Cofnododd 23% fod unigolion yn y ddalfa wedi cael cyfarwyddyd.




**Picseliad toiled**

- Ni allai 77% o'r panel ddod o hyd i unrhyw wybodaeth a oedd yn nodi bod yr unigolion ifanc wedi cael gwybod am bicseliad toiled yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.
- Cofnododd 15% eu bod wedi gwneud hynny a nododd 8% nad oeddent.




**Cynnig Lluniaeth Bwyd**

- Roedd 92% o gofnodion dalfeydd a adolygwyd wedi cofnodi bod unigolion ifanc yn cael cynnig bwyd a lluniaeth yn y ddalfa.
- Er bod pobl ifanc yn cael cynnig bwyd a lluniaeth, nododd y panel hefyd fod adegau pan na chofnodwyd a oedd y ddalfa wedi holi a oedd gan y sawl a oedd yn cael eu cadw unrhyw alergeddau neu adroddwyd ar adegau amrywiol bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cael cynnig lluniaeth ond nid oedd unrhyw amseroedd penodol wedi'u rhestru yn y cofnod cadw.

**Swyddog benywaidd wedi'i neilltuo ar gyfer merched ifanc sy'n cael eu cadw yn y ddalfa.**

- O'r tair unigolyn ifanc benywaidd a gofnodwyd yn y ddalfa, neilltuwyd swyddog benywaidd iddynt i gyd.
- O ran cynhyrchion mislif, dim ond i ddwy y cofnodwyd eu bod wedi cael cynnig cynhyrchion ac nid oedd cofnod wedi'i nodi ar gyfer un o'r cofnodion achos.




**Ceisiadau Hylendid**

- Cofnodwyd bod 62% o unigolion a oedd yn cael eu cadw yn y ddalfa yn cael cynnig cawodydd a chyfleusterau ymolchi dwylo.
- Nid oedd 38% wedi cael cynnig hyn.




## Sgôr Rhybudd Cynnar yn y Ddalfa (CEWS)

- Mae system sgôr rhybudd cynnar yn y ddalfa wedi’i hychwanegu at broses asesu risg safonol arferol yr heddlu i nodi morbidrwydd a risg marwolaethau yn y ddalfa.




## Hawliau

- Rhoddwyd eu hawliau i’r holl unigolion ifanc naill ai yn ystod y cam cofnodi neu rywbryd yn ystod eu hamser yn y ddalfa.
- Mae'r graff hwn yn dangos bod 54% o unigolion ifanc a gafodd eu cadw yn y ddalfa wedi profi oedi cyn cael cynnig eu llyfryn hawl; fodd bynnag, mae'r llyfryn hwn yn ddewisol sy'n adlewyrchu bod 38% wedi gwrthod yr opsiwn o gael y llyfryn tra'n cael eu cadw.




**Am ba mor hir, ar ôl cael ei gadw yn y ddalfa, y gofynnodd yr unigolyn ifanc am gyfreithiwr?**

•Yr amser cyfartalog a gymerodd i unigolyn ifanc yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd un awr a 27 munud.

•Mewn pump o'r achosion, gwnaeth person ifanc gais am gyfreithiwr o fewn 10 munud.

•Y cyfnod hiraf i unigolyn a gafodd ei gadw yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd 13 awr.

•Roedd 77% o’r unigolion ifanc a gafodd eu cadw yn y ddalfa wedi gweld neu wedi siarad â chyfreithiwr yn ystod eu carchariad. Ni allai 15% ddod o hyd i'r manylion a gofnodwyd yn y cofnod cadw.

**Faint o amser a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr**

- Yr amser cyfartalog a gymerodd oedd un awr a 48 munud i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr ar ddyletswydd.
- Y cyfnod hiraf o amser oedd tair awr a 10 munud.
- Yr amser byrraf oedd yn syth ar ôl cael ei ofyn.
- Rhaid nodi, mewn pedwar o'r achosion, nad oedd y panel yn gallu dod o hyd i'r amser a gymerwyd naill ai oherwydd bod yr wybodaeth ar y ffurflen yn ei gwneud yn anodd ei chanfod, neu oherwydd nad oedd y cofnod hwn wedi'i gofnodi ar y cofnod cadw.

**Faint o amser a gymerodd i gyfreithiwr gyrraedd o'r pwynt cysylltu**

- Yr amser cyfartalog i gyfreithiwr gyrraedd oedd 8 awr ac 14 munud.
- Roedd dau achlysur pan gyrhaeddodd cyfreithiwr 15 awr ar ôl i'r unigolyn ifanc gael ei gadw yn y ddalfa.
- Yr amser byrraf a nodwyd oedd un awr a 18 munud.
- Roedd y panel wedi nodi ar yr achlysuron canlynol:



1. Nid oedd cyfreithiwr ar ddyletswydd ar gael a darparwyd cyfreithiwr arall a oedd eisoes ar y safle yn gweld unigolyn gwahanol yn y ddalfa i'r unigolyn ifanc.
2. Nod oedd cofnod o gyfreithwyr penodol yn cyrraedd y ddalfa nac yn nodi bod cyfarfod wedi'i gynnal.

- O dan yr amgylchiadau lle bu oedi cyn i gyfreithiwr ymweld, roedd 33% wedi rhoi sail resymegol; tra nad oedd 67% wedi rhoi unrhyw sail resymegol i'r panel ar y cofnod cadw.

**Lefel arsylwi**







- Cofnododd y panel gadarnhad 100% bod holl risgiau unigolion ifanc yn cael eu cadw yn y ddalfa wedi'u hystyried a'r rhesymeg wedi'i chofnodi.
- Bernir lefel y risg ar bedair lefel.
- Lefel 1 Cyffredinol (o leiaf unwaith yr awr)
- Lefel 2 Ysbeidiol (bob 30 munud)
- Lefel 3 Cyson (arsylwi cyson ar deledu cylch cyfyng ac yn hygyrch bob amser)
- Lefel 4 Yn Gorfforol Agos (dan oruchwyliaeth gorfforol agos).
- Cofnodwyd Lefel 4 oedd y raddfa risg mwyaf cyffredin a nodwyd gyda 43%.







- Barnwyd y glynwyd at 89% o'r lefelau arsylwi o gymharu ag 11% na lynwyd.

- Sylwadau a godwyd gan y panel ar y lefel arsylwi ac a lynwyd ati:
  *a) Newidiwyd y lefel arsylwi o lefel 4 i lefel 1 unwaith i'r oedolyn priodol gyrraedd.*
  *b) Cynhaliodd staff y ddalfa arsylwadau da ar bob lefel.*




**Gwasanaethau cynorthwyol**

- Cynigiwyd gwasanaethau cymorth i 85% o unigolion ifanc a gafodd eu cadw yn y ddalfa ifanc.

- Nododd y panel mai'r gwasanaethau a ganlyn oedd yn cael eu cynnig: gwasanaethau cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a'r Tîm Troseddau Ieuenctid .

**Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol a Siwtiau Gwrth-rwygo**

| Rheswm dros y Dyfarniad | Camau Dilynol |
|---|---|
| Cwymplen mewn defnydd a rhesymeg lawn dros ddefnyddio'r dillad, sy'n gyfiawnadwy ac yn gymesur i'r perygl a gyflwynir. | Does dim angen camau gweithredu pellach ar hyn o bryd. |
| Tynnwyd y dillad i ffwrdd cyn gynted ag y bo'n ymarferol. | |
| Dad-ddwysáu clir, a defnyddiwyd eitemau tynnu sylw ac ati er mwyn lleihau'r perygl y byddai'r carcharor yn niweidio ei hun yn fwriadol. | |
| Ychydig iawn o gyfiawnhad, neu gyfiawnhad aneglur, dros ddefnyddio'r dillad. | Rhoddwyd hyfforddiant/cyngor pellach i staff y ddalfa. |
| Gwybodaeth annigonol ar gyfer pennu cymesuredd defnyddio'r dillad. | |
| Gadawyd y carcharor yn y dillad am gyfnod hir. | |
| Nodwyd drwy'r gwymplen fod y dillad wedi'u defnyddio, ond ni roddwyd gwybodaeth bellach. | Mae angen archwilio ymhellach i'r defnydd/rhesymeg. Achosion i'w codi gydag arolygydd y ddalfa. |
| Defnyddiwyd y dillad yn absenoldeb gwybodaeth risg ond ni nodwyd rhesymau eraill. | |
| Defnyddiwyd y dillad gan yr heddlu ond ni roddwyd gwybodaeth bellach. | |
| Ni ddefnyddiwyd y gwymplen. Darganfu gwybodaeth am y dillad fel rhan o adolygiadau rheolaidd o gofnodion dalfa gan Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. | |

- Mae'r siartiau cylch isod yn dangos y defnydd o siwtiau gwrth-rwygo ar gyfer unigolion ifanc a gafodd eu cadw yn y ddalfa a'r opsiwn ar gyfer gweithiwr gofal iechyd proffesiynol:




































**Yn gyffredinol, nododd y panel:**

a) Roedd pob cam priodol wedi'i gymryd yn brydlon ac ar y lefel gywir.

b) Cedwir cofnodion yn dda a chânt eu diweddaru.
c) O dan amgylchiadau anodd iawn, mae staff y ddalfa wedi ymateb yn dda.
ch) O'r digwyddiad unigol yn ymwneud â thynnu dillad unigolyn yn y ddalfa, darparwyd rhesymeg briodol a oedd yn cynnwys ei ymddygiad wrth gael ei hebrwng i'r ddalfa a nodwyd ei fod yn dreisgar, yn feddw iawn ac yn bygwth gwneud rhwymyn o amgylch ei wddf.

A yw'r cofnod yn cynnwys tystiolaeth o ddad-ddwysáu, eitemau sy'n tynnu sylw neu ddulliau eraill o leihau lefel risg yr unigolion trayn y ddalfa?




- Nododd y panel nad oedd siwtiau gwrth-rwygo yn cael eu defnyddio yn y mwyafrif o achosion. Bu tri achlysur pan ddefnyddiwyd tracwisg lwyd oherwydd bod gan yr unigolyn yn y ddalfa feddyliau ynghylch hunanladdiad neu atafaelwyd dillad yr unigolyn at ddibenion tystiolaethol.

- Roedd gan y panel y sylwadau a ganlyn ynghylch ymagwedd y ddalfa at iechyd meddwl:
  a) Rhannu gwybodaeth yn dda rhwng sefydliadau gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, y meddyg teulu.
  b) Asesiadau risg da a oedd yn cynnwys bregusrwydd yr unigolyn yn y ddalfa yn ymwneud â hunan-niweidio neu iechyd meddwl.
  c) Mewn llawer o'r achosion, roedd yr unigolion ifanc a gafodd eu cadw yn y ddalfa yn cael eu trin yn deg ac yn dosturiol.

Os na chysylltwyd ag unigolyn enwebedig/oedolyn priodol, a gofnodwyd rheswm?




A oedd unrhyw sail resymegol ar gael dros oedi cyn i oedolyn priodol gyrraedd?




## Oedolion Priodol

- Nododd y panel fod yr heddlu ym mhob achos wedi nodi bod angen oedolyn priodol. Dywedodd y panel hefyd y cysylltwyd â'r holl oedolion priodol neu bersonau enwebedig
- Roedd 22% o'r cofnodion dalfa a adolygwyd wedi darparu eu rhesymeg.
- Yr amser cyfartalog a gymerodd yr heddlu i gysylltu am y tro cyntaf ag oedolyn priodol oedd tair awr a 34 munud.
- Y cyfnod hiraf o amser i swyddog y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol oedd 13 awr a'r ail hiraf oedd 10 awr a 10 munud.
- Ar bum achlysur, cysylltwyd yn syth ar ôl i'r cais gael ei wneud.
- Ni allai rhai aelodau o'r panel ddod o hyd i'r manylion hyn wedi'u nodi yn y cofnod dalfa, tra bod aelod arall wedi nodi bod anawsterau gyda'r oedolyn priodol yn teithio o bellteroedd hir.
- Yr amser cyfartalog i unigolyn ifanc yn y ddalfa gael cyswllt cyntaf ag oedolyn priodol oedd 4 awr a 31 munud.
- Nododd y panel fod 33% o'r achosion a adolygwyd wedi rhoi sail resymegol ar gyfer oedi cyn i'r oedolyn priodol gyrraedd, o gymharu â 17% nad oedd wedi gwneud hynny a 50% nad oeddent yn berthnasol.
- Nododd y panel y sylwadau canlynol ynghylch darpariaeth oedolyn priodol:

*a) Roedd yna nifer o achlysuron pan wrthododd rhiant yr unigolyn ifanc fod yn oedolyn priodol neu nid oedd yn gallu bod yn oedolyn priodol. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i staff y ddalfa wneud nifer o ymdrechion i gysylltu â gwasanaethau eraill megis gwasanaethau cymdeithasol am gymorth.*

*b) Bu nifer o achosion yn nodi anhawster o ran gallu cysylltu â'r awdurdod lleol/gwasanaethau cymdeithasol.*

c) *Nodwyd nifer o achosion o ddiffyg oedolyn priodol ar gael.*

## Plant yn y Ddalfa













- Nododd y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas ag unrhyw sail resymegol i blant gael eu cadw yn y ddalfa dros nos:

*a) Digwyddodd y rhan fwyaf o arestiadau yn oriau mân y bore a olygai fod y ddalfa ar sawl achlysur yn aros am lety priodol ar ôl rhyddhau.*

*b) Roedd un achlysur pan oedd yr unigolyn ifanc yn feddw ac felly ni ellid ei gyfweld.*

*c) Roedd dau achos lle'r oedd anhawster i gael cartref gofal gan fod yr unigolion ifanc yn byw y tu allan i ardal Dyfed-Powys.*

*ch) Roedd yna achos lle roedd y rhieni wedi gwrthod cael yr unigolyn ifanc yn ôl i'r cyfeiriad cartref.*

**Sgôr Cyffredinol**




- Gofynnwyd i'r panel roi sgôr allan o bump ar ddiwedd pob cofnod dalfa, gyda'r arweiniad bod un yn golygu bod angen gwelliant a phump yn rhagorol.
- Y sgôr gyfartalog gyffredinol a gafodd y panel allan o'r 18 cofnod dalfa a adolygwyd oedd 3.56.